# Cymorth gyda'ch Astudiaethau Academaidd

Mae'r Brifysgol yn darparu unigolyn penodol yn gyswllt i'ch cefnogi yn eich astudiaethau. Yn aml gelwir y rhain yn diwtoriaid personol, tiwtoriaid blwyddyn, neu dermau tebyg eraill. Drwy gydol y ddogfen hon cyfeirir atynt yn Diwtoriaid Cymorth Academaidd. Caiff tiwtor penodol yn ei neilltuo i chi ar gyfer pob blwyddyn eich astudiaethau, os hoffech newid eich tiwtor, cysylltwch â'ch Athrofa i drafod y rhesymau dros eich cais.

Fel arfer, cewch gyfle i gwrdd â'ch Tiwtor Cymorth Academaidd mewn grwpiau bach neu'n unigol. Bydd Tiwtoriaid Cymorth Academaidd yn egluro sut y gallwch gysylltu â nhw, gan gynnwys drwy oriau swyddfa neu gyfarfodydd rheolaidd.

Sylwer nad yw'r Brifysgol yn disgwyl y bydd Tiwtoriaid Cymorth Academaidd ar gael y tu allan i oriau gwaith arferol y Brifysgol. Y tu allan i'r tymor, gall Tiwtoriaid Cymorth Academaidd ymateb yn arafach i ymholiadau neu geisiadau, yn unol â'u gwyliau blynyddol.

## Rôl y Tiwtor Cymorth Academaidd

Mae'r rôl yn cynnwys:

- Cefnogi datblygiad proffesiynol, yn ogystal â datblygiad academaidd cyffredinol, y myfyriwr;
- Gweithio mewn partneriaeth â'r myfyriwr;
- Bod yn gyfrwng ychwanegol o gyfathrebu mewnol;
- Cysylltu, yn ôl yr angen, â staff eraill sy'n cefnogi'r myfyriwr;
- Darparu cyfrwng arall fel y gall myfyrwyr ddarparu adborth a chodi ymholiadau.

Gellir priodoli llwyddiant ein system cymorth academaidd, i raddau helaeth, i'r berthynas anffurfiol ragorol sy'n bodoli rhwng staff a myfyrwyr yn ogystal ag ymrwymiad y staff i les y myfyrwyr. Mae'r cod ymarfer ar gyfer tiwtoriaid cymorth academaidd yn adlewyrchu'r ethos cefnogol hwn.

## Beth y gallwch chi ei ddisgwyl gan eich Tiwtor Cymorth Academaidd

Bydd y Tiwtoriaid Cymorth Academaidd:

- Yn trin pob myfyriwr â pharch yn unol ag ymrwymiad y Brifysgol i ddarparu amgylchedd dysgu cynhwysol;
- Yn parchu cyfrinachedd, oddi mewn i ofynion cyfreithiol;
- Yn darparu cymorth priodol neu gyfeirio'r myfyriwr at gymorth arbenigol ynghylch gwahaniaethu, aflonyddu a bwlio neu anawsterau eraill a allai ddod i ran myfyrwyr;
- Yn ymwybodol o'r cyfyngiadau ar eu gallu i ddarparu cymorth ac yn cyfeirio at gymorth pellach pan fo'n briodol;
- Yn ymwybodol o egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth;
- Yn cynnig cyngor ac arweiniad ar faterion sy'n effeithio ar brofiad academaidd y myfyriwr yn y brifysgol;
- Yn gweithredu'n fentor academaidd/proffesiynol i fyfyrwyr tiwtoraidd.